



# Cyfiawnder Adferol



## Beth ydi Cyfiawnder Adferol?

Mae Cyfiawnder Adferol yn galluogi dioddefwyr gael dweud eu dweud o ran sut yr ymdrinnir â throseddwr yn y System Gyfiawnder Troseddol. Gall dioddefwyr gyfarfod y troseddwr er mwyn gofyn iddynt y cwestiynau sydd ganddynt am y digwyddiad sydd heb eu hateb. Y dioddefwyr sy'n rheoli'r sefyllfa a gallant ddewis os ydynt yn dymuno parhau â'r broses gyfiawnder adferol a chyfarfod y troseddwr wyneb yn wyneb neu gyfathrebu â nhw drwy lythyr. Manteision cyfiawnder adferol yw rhoi cyfle i'r dioddefwyr:

- Ddweud wrth y troseddwr sut mae eu gweithredoedd wedi cael effaith ar eu bywydau.
- Gofyn am eglurhad gan y troseddwr.

Gall dioddefwyr gael ymddiheuriad neu fath arall o iawndal gan y troseddwr.

## Pryd gellir ei ddefnyddio?

Gellir defnyddio Cyfiawnder Adferol ar unrhyw bwynt yn ystod y broses Cyfiawnder Troseddol boed hynny:

- ✓ Cyn gwrandawriad llys
- ✓ Fel rhan o broses datrys y mater tu allan i'r llys
- ✓ Ar ôl i'r troseddwr gael ei ddefnyddio yn y llys.

Gellir ond ei ddefnyddio os ydi'r troseddwr:

- ✓ Wedi cyfaddef cyflawni'r trosedd a derbyn cyfrifoldeb amdano.
- ✓ Wedi cytuno i gyfarfod y dioddefwr os ydi'r dioddefwr wedi gofyn i hynny ddigwydd.
- ✓ Os ydi'r troseddwr yn barod i edrych ar ffyrdd o wneud yn iawn am y difrod neu'r niwed a achoswyd gan y trosedd.

## Pryd ni ellir ei ddefnyddio?

Ni fyddai Cyfiawnder Adferol yn addas ar gyfer achosion trais domestig, camdriniaeth plant neu ymosodiad rhywiol. Y rheswm dros hyn ydi oherwydd bod diogelwch y dioddefwr yn hanfodol ac ni ddylai'r dioddefwr ar unrhyw adeg deimlo'n agored i niwed yn ystod y broses Gyfiawnder Adferol.

## Sut mae'n helpu'r dioddefwr?

Mi wnaeth gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan y Llywodraeth ddangos bod 85% o'r rhai hynny a gymerodd ran mewn proses gyfiawnder adferol yn fodlon gyda'r canlyniad. Mae'n rhoi cyfle i ddioddefwyr gael atebion i'w cwestiynau a gwneud i'r troseddwr ddeall sut mae eu gweithredoedd wedi cael effaith ar eraill. Mae'r mwyafrif o ddioddefwyr yn teimlo'n well ar ddiwedd y broses Gyfiawnder Adferol oherwydd eu bod wedi gallu dod â'r mater i ben a'u bod nawr yn gallu symud ymlaen gyda'u bywydau.

## Fydd y troseddwr yn newid?

Nid oes yna sicrwydd y bydd Cyfiawnder Adferol yn cael effaith bositif ar bob troseddwr gan fod pob achos yn wahanol. Ond mae'n gwneud i'r troseddwr ddeall bod ei weithredoedd wedi cael effaith negyddol ar fywyd y dioddefwr. Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan y Llywodraeth wedi dangos bod Cyfiawnder Adferol wedi lleihau aildroseddu 27%.

## Stori Cyfiawnder Adferol

Gofynnodd Kate Morgan i'r heddlu ei helpu i gyfarfod y dyn a laddodd ei merch mewn damwain gyrru'n beryglus yn 2012. "Ar ôl yr angladd mi es i leoliad y ddamwain a gwelais y marciau lle'r oedd y car wedi troi drosodd. Roedd gen i gymaint o gwestiynau i'w gofyn ac felly gofynnais i'w weld yn y carchar. Roedd rhaid i mi fynd drwy'r sianeli cywir ac fe gytunodd i fy ngweld. Bore'r ymweliad mi feddyliais sut oeddwn am ofyn y cwestiynau er mwyn ceisio darganfod beth yn union ddigwyddodd."

*"Roedd ei gyfarfod yn gyfle i mi edrych ym myw ei lygaid a dweud wrtho'n union sut oeddwn yn teimlo. Roedd yn sgwrs na allwn fod wedi'i chael yn y stryd. Bellach rwy'n teimlo nad oes yna unrhyw beth nad wyf yn ei wybod, does dim cyfrinachau.*

*Roedd yn wych fy mod wedi gallu, ar ôl ei weld yn y carchar, fynd i'r gwely y noson honno a chysgu drwy'r nos am y tro cyntaf ers y ddamwain.*

*Roedd Cyfiawnder Adferol yn help mawr i mi ond credaf nad yw hynny'n wir i bawb."*

Mi wnaeth Heddlu Gogledd Cymru gefnogi Kate drwy'r broses hon

## Lle alla'i gael mwy o wybodaeth?

Cyngor Cyfiawnder Adferol  
[www.restorativejustice.org.uk](http://www.restorativejustice.org.uk)

Gwasanaeth Erllyn y Goron  
[www.cps.gov.uk/legal/p\\_to\\_r/restorative\\_justice](http://www.cps.gov.uk/legal/p_to_r/restorative_justice)

Cymorth i Ddioddefwyr  
[www.victimsupport.org.uk/help-and-support/your-rights/restorative-justice](http://www.victimsupport.org.uk/help-and-support/your-rights/restorative-justice)

Canolfan Cymorth Dioddefwyr  
[www.victimhelpcentrenorthwales.org.uk/what-is-the-victim-help-centre](http://www.victimhelpcentrenorthwales.org.uk/what-is-the-victim-help-centre)

Why Me?  
[www.why-me.org/rj-service](http://www.why-me.org/rj-service)